

ADRODDIAD BLYNYDDOL

CYDYMFFURFEDD Â'R SAFONAU IAITH GYMRAEG

2018-19



Grŵp
**Llandrillo
Menai**

CYNNWYS

RHAGAIR	2
PWRPAS YR ADRODDIAD	2
TREFNIADAU GORUCHWYLIO CYDYMFFURFEDD	2
ASESIAD O GYDYMFFURFIAETH	3
Ansawdd gwasanaethau Cymraeg	3
Defnyddio'r Gymraeg yng ngweinyddiaeth fewnol y Grŵp	6
Penderfyniadau Polisi	8
Sgiliau Cymraeg Cyflogeion	10
Recriwtio i Swyddi Gwag a Newydd	11
Hyfforddiant Cymraeg i Gyflogeion	12
Hyfforddiant ieithyddol ac ymwybyddiaeth iaith i gyflogeion	12
Cwynion	12

1. RHAGAIR

1.1. PWRPAS YR ADRODDIAD

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd ar Grŵp Llandrillo Menai (y Grŵp) i gydymffurfio â safonau mewn perthynas â'r Gymraeg. Mae safon yn egluro sut mae disgwyl i sefydliadau ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol sefyllfaoedd.

Dyma gyhoeddi ail adroddiad blynyddol y Grŵp ar ei weithrediad o'r Safonau Iaith Gymraeg. Mae'r safonau wedi eu rhannu'n bedwar maes:

- Cyflenwi gwasanaethau
- Llunio polisi
- Gweithredu
- Cadw cofnodion

Mae'r adroddiad yn amlinellu'r modd y bu i'r Grŵp gydymffurfio â'r safonau o fewn y meysydd uchod o 1 Awst 2018 hyd at 31 Gorffennaf 2019.

Yn sgil derbyn ein hysbysiad cydymffurfio ar gyfer y Safonau Iaith Gymraeg, datblygwyd Polisi Iaith Gymraeg o'r newydd sy'n adeiladu ar y gwaith sy'n mynd rhagddi eisoes o fewn y Grŵp (dan yr hen Gynllun Iaith Gymraeg).

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd darparu gwasanaeth cwbl ddwyieithog i ddysgwyr ac aelodau o'r cyhoedd. Yn benodol, mae'r Grŵp yn cydnabod pwysigrwydd datblygiadau uchelgeisiol a fydd yn meithrin amgylchedd a fydd yn hyrwyddo defnydd a thwf yr iaith Gymraeg ymhlith dysgwyr, staff a rhanddeiliaid allweddol.

Dyddiad Cyhoeddi: 31 Ionawr 2020

1.2. TREFNIADAU GORUCHWYLIO CYDYMFFURFEDD

Manylion cyswllt ar gyfer cyflwyno ymholiadau: SafonauCymraeg@gllm.ac.uk

Uwch-swyddog cyfrifol: Angharad Mai Roberts, Pennaeth Datblygu Dwyieithrwydd ac Adnoddau Dysgu

Trefniadau dirprwyo cyfrifoldebau gweithredol: Mae Panel Iaith y Grŵp yn goruchwyllo'r Polisi Iaith Gymraeg. Ystyrir bod pob aelod o staff yn gyfrifol am sicrhau cydymffurfedd â'r Safonau Iaith Gymraeg yn unol â Pholisi Iaith Gymraeg y Grŵp.

2. ASESIAID O GYDYMFFURFIAETH

2.1. Ansawdd gwasanaethau Cymraeg

Mae'n ofynnol ein bod yn cynnwys y modd y bu i ni gydymffurfio â'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr ydym o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy o fewn ein hadroddiad blynyddol. Mae'r tabl isod yn amlinellu'r safonau cyflenwi gwasanaethau hynny sydd wedi derbyn sylw parhaus gan Banel Iaith y Grŵp i sicrhau ein bod yn cydymffurfio'n llawn â nhw.

Maes	Cwestiynau posib gweithgareddau cwsmer cudd	Rhif Safon	Yn berthnasol i	Diweddariad (Rhagfyr 2019)
Gohebiaeth (llythyrau, ymholiadau ac ati)	Ydi gohebiaeth Cymraeg gan unigolyn yn derbyn ymateb yn Gymraeg? (Oni bai bod y person wedi dweud nad oes angen ateb yn Gymraeg).	1	Holl staff	Holl staff wedi derbyn arweiniad a/neu hyfforddiant ar hyn ar ddechrau'r cyfnod (Ebrill 2018). Holl staff newydd yn derbyn arweiniad ar hyn mewn sesiynau cynefino staff. Datblygiad Pellach: atgoffa holl staff o'r canllawiau. (AMR / SW)
	Beth yw'r broses o ofyn pa iaith mae unigolyn yn dymuno derbyn gohebiaeth ac o gofnodi dewis iaith gohebiaeth unigolyn?	2	Holl staff	Mae dewis iaith myfyrwyr cofrestredig yn cael ei gofrestru ar eDrac. Mae holl ohebiaeth cyffredinol yn cael ei anfon yn ddwyieithog. Mae Swyddogion Lleoliadau Gwaith yn cofnodi hyn yn ystod cyfnod cofrestru prentisiaid ac mae asesydd dwyieithog yn cael ei glustnodi lle bo gofyn am hynny. Datblygiad Pellach: Cynnal gweithgaredd cwsmer cudd / awdit yn y maes (RhE / SLI)
	Ydi gohebiaeth, cyhoeddiadau a hysbysiadau yn datgan bod croeso i unigolyn cael gohebiaeth yn Gymraeg, y byddwn yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg ac na fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi?	7	Holl staff	Ebost holl staff yn nodi hyn ar waelod pob neges ebost. Papur pennawd wedi ei ddiweddarau efo nodyn yn cynnig dewis iaith.
	Ydi'r testun ar y deunyddiau/arwyddion Cymraeg ar y waliau yn gywir o ran ystyr a mynegiant?	6	Holl staff	Tîm cyfieithu yn darparu cyfieithiadau i arwyddion.

Wyneb yn wyneb (derbynfa)	Oes arwydd yn y dderbynfa yn datgan (yn Gymraeg) fod croeso i unigolion ddefnyddio'r Gymraeg yn y dderbynfa? (Coleg Llandrillo o 1 Hydref 2019)	71	Gwasanaeth prif linellau cyswllt a derbynfeydd yn unig.	Oes
	Ydi staff yn y dderbynfa sy'n gallu darparu gwasanaeth Cymraeg yn gwisgo bathodyn sy'n cyfleu hynny?	72	Gwasanaeth prif linellau cyswllt a derbynfeydd yn unig.	Staff sy'n ddwyieithog yn gwisgo laniard 'Cymraeg' y Grŵp
	Ydi pob gwasanaeth derbynfa sydd ar gael yn Saesneg hefyd ar gael yn Gymraeg? Ydi staff yn cyfarch yn Gymraeg? Ydi staff yn ymateb yn Gymraeg i ymholiad Cymraeg?	68, 69	Gwasanaeth prif linellau cyswllt a derbynfeydd yn unig.	Coleg Menai a Meirion Dwyfor yn gweithredu fel hyn beth bynnag. Staff derbynfeydd Coleg Llandrillo wedi derbyn hyfforddiant a'r rhai sy'n dysgu Cymraeg yn dal i fynychu gwersi. Datblygiad Pellach: staff derbynfeydd nad ydynt yn rhugl i barhau i fynychu gwersi (LJ, SMC)
	Oes trefniant mewn lle i aelod o staff arall ymateb ymholiad yn Gymraeg os yw'r unigolyn yn methu?		Gwasanaeth prif linellau cyswllt a derbynfeydd yn unig.	Oes - staff Rhyl ac Abergele (un ai yn cysylltu efo aelod o staff dwyieithog yn y llyfrgell neu drosglwyddo i Rhos) Dim angen trosglwyddo yn CM a CMD
Galwadau ffôn	Ydi staff yn cyfarch unigolion yn Gymraeg pan fyddent yn cysylltu ar brif rif ffôn (neu ar un o'r prif rifau ffôn), neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau?	8	Gwasanaeth prif linellau cyswllt a derbynfeydd yn unig.	Gweithredol.
	Ydi staff yn rhoi gwybod i unigolyn fod gwasanaeth Cymraeg ar gael pan fyddent yn cysylltu ar brif rif ffôn (neu ar un o'r prif rifau ffôn), neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau?	9	Gwasanaeth prif linellau cyswllt a derbynfeydd yn unig.	Mae holl staff derbynfeydd yn cyfarch yn ddwyieithog.
	Ydi prif wasanaeth (neu wasanaethau) ateb galwadau ffôn yn rhoi gwybod i unigolion sy'n	16	Gwasanaeth prif linellau cyswllt a	Neges awtomatig yn ddwyieithog. Dim byd penodol i ddweud bod modd gadael neges yn Gymraeg.

	galw fod modd gadael neges yn Gymraeg?		derbynfeydd yn unig.	Datblygiad Pellach: ailedrych ar y neges awtomatig a chwaraeir ar brif linellau ffôn (SMc, LJ, PhJ)
	Ydi aelod o staff yn cymryd nodyn o ddewis iaith unigolyn i alwadau yn y dyfodol? Beth yw'r system cofnodi?	21	Holl staff	Dewis iaith dysgwyr / cyflogwyr yn cael ei gofnodi ar MYTAS. Datblygiad Pellach: Cynnal gweithgaredd cwsmer cudd / awdit yn yr adran (Rh / SL)
	Oes trefniadau mewn lle i drosglwyddo ymholiad i aelod o staff sy'n medru'r Gymraeg?	11, 19	Holl staff	Oes - staff Rhyl ac Abergele (un ai yn cysylltu efo aelod o staff dwyieithog yn y llyfrgell neu drosglwyddo i Rhos) Dim angen trosglwyddo yn CM a CMD
Arwyddion a deunyddiau ar y waliau	Ydi holl ddeunydd sy'n mynd ar waliau'r coleg (o fewn yr adran) yn ddwyieithog?	65	Holl staff	Unrhyw ddeunydd swyddogol y Grŵp yn mynd fyny'n ddwyieithog. Datblygiad Pellach: Atgoffa holl staff o Bolisi iaith Gymraeg a Safonau iaith Gymraeg y Grŵp wrth ystyried deunyddiau ar y waliau. (AMR, SW)
	Ydi'r testun ar y deunyddiau/arwyddion Cymraeg ar y waliau yn gywir o ran ystyr a mynegiant?	67	Holl staff	Mae holl arwyddion swyddogol yn cael eu cyfieithu gan y tîm cyfieithu.
	Ydi'r arwydd wedi cael ei roi mewn safle fel mai'r Gymraeg sy'n debygol o gael ei ddarllen gyntaf?	66	Holl staff	Ydi
Gwefan	Ydi testun pob tudalen ar y wefan ar gael yn Gymraeg?	55	Tîm Marchnata	Ydi
	Ydi pob tudalen Gymraeg ar y wefan yn gweithredu'n llawn?	55	Tîm Marchnata	Ydi
	Ydi'r wefan yn nodi'n glir ar y dudalen Saesneg fod y dudalen hefyd ar gael yn Gymraeg? Ydi o'n darparu dolen uniongyrchol at y dudalen Gymraeg ar y dudalen Saesneg?	58	Tîm Marchnata	Ydi
Deunydd marchnata (ar lefel maes rhaglen)	Ydi deunydd marchnata'r adran ar gael yn ddwyieithog?	37, 38, 43,	Staff adran gyda chyfrifoldeb marchnata	Ydi

	Ydi deunydd marchnata sy'n cyhoeddi rhifau ffôn yn nodi ein bod yn croesawu galwadau ffôn yn y Gymraeg?		Staff adran gyda chyfrifoldeb marchnata	Mae unrhyw beth a gynhrychir yn gorfforaethol (prosbectysau ac ati) yn nodi ein bod yn hapus i dderbyn galwadau yn Gymraeg neu yn Saesneg.
Cyfryngau cymdeithasol	Ydi pob neges yn cael ei gyhoeddi yn ddwyieithog ar yr holl blatfformau cyfryngau cymdeithasol?	62	Tîm Marchnata a staff adran gyda chyfrifoldeb marchnata.	Cyfrifon swyddogol y Grŵp i gyd yn ddwyieithog. Datblygiad Pellach: Angen cynnal awdit o gyfrifon cyfryngau cymdeithasol sy'n cyfeirio at y Grŵp er mwyn sicrhau eu bod yn cyrraedd y safon. (AMR / SW)
	Ydi unigolion yn cael ateb yn y Gymraeg os ydynt yn cysylltu yn Gymraeg ar y cyfryngau cymdeithasol?	63	Tîm Marchnata a staff adran gyda chyfrifoldeb marchnata.	Y tîm marchnata yn ateb yn Gymraeg.

2.2. Defnyddio'r Gymraeg yng ngweinyddiaeth fewnol y Grŵp

Mae'n ofynnol ein bod yn cynnwys y modd y bu i ni gydymffurfio â'r safonau gweithredu yr ydym o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy o fewn ein hadroddiad blynyddol. Mae'r tabl isod yn amlinellu'r safonau gweithredu hynny sydd wedi derbyn sylw parhaus gan Banel Iaith y Grŵp i sicrhau ein bod yn cydymffurfio'n llawn â nhw.

Maes	Cwestiynau posib Gweithgareddau cwsmer cudd	Rhif Safon	Yn berthnasol i	Diweddariad (Rhagfyr 2019)
Gohebiaeth (llythyrau, ymholiadau ac ati)	Oes gan staff lofnod e-bost sydd yn dynodi os ydynt yn siarad Cymraeg yn rhugl neu'n dysgu'r iaith? e.e. "Ysgrifennwch ataf yn Gymraeg neu'n Saesneg."	142	Holl staff	Staff i gyd efo mynediad at arweiniad ar sut i gynnwys llofnod e-bost sy'n dynodi os ydynt yn siarad Cymraeg. Datblygiad Pellach: Atgoffa staff i ddiweddarau llofnod e-bost. (AMR / SW)
Arwyddion a deunyddiau ar y waliau	Ydi holl ddeunydd sy'n mynd ar waliau'r coleg (o fewn yr adran) yn ddwyieithog?	150	Holl staff	Unrhyw ddeunydd swyddogol y Grŵp yn mynd fyny'n ddwyieithog. Mae dal arwyddion dros dro yn mynd ar y waliau yn Saesneg weithiau. Datblygiad Pellach: Atgoffa holl staff o Bolisi Iaith Gymraeg a Safonau Iaith Gymraeg y Grŵp wrth ystyried deunyddiau ar y waliau. (AMR, SW)
	Ydi'r testun ar y deunyddiau/arwyddion	152	Holl staff	Unrhyw ddeunydd swyddogol y Grŵp yn mynd fyny'n ddwyieithog.

	Cymraeg ar y waliau yn gywir o ran ystyr a mynegiant?			Datblygiad Pellach: Atgoffa holl staff o Bolisi Iaith Gymraeg a Safonau Iaith Gymraeg y Grŵp wrth ystyried deunyddiau ar y waliau. (AMR, SW)
	Ydi'r arwydd wedi cael ei roi mewn safle fel mai'r Gymraeg sy'n debygol o gael ei ddarllen gyntaf?	151	Holl staff	Ydi
Systemau ar-lein	Ydi systemau mewnol ar-lein GLIM i gyd ar gael yn Gymraeg?	128, 133	Adran TG	Porth y Grŵp yn ddwyieithog. Rhai tudalennau'n dal ddim yn ddwyieithog (e.e. 'Appraisal centre', y dashfwrdd sy'n cael ei ddefnyddio gan reolwyr yn unig). Datblygiad Pellach: Adran TG i adolygu'r tudalennau.
	Ydi'r dogfennau ar system fewnol ar-lein GLIM i gyd ar gael yn Gymraeg? e.e. polisiau, papurau ayyb	128, 133	Holl staff	Dogfennau sydd wedi eu creu'n fewnol yn ddwyieithog ond rhai dogfennau allanol (rhai sy'n perthyn i sefydliadau allanol fel byrddau dyfarnu) yn uniaith Saesneg.
	Systemau ar-lein i'w gwirio; Systemau dysgwyr 1. eDrac dysgwr (ddim yn cynnwys adroddiadau ac ati) 2. EBS Prospect (ceisiadau arlein) Systemau Staff 1. Porth y Grŵp (a phob tudalen tu mewn i'r Porth) 2. eDrac tiwtor	128, 133	Holl staff	Gwiriad yn cael ei gynnal ddwywaith y flwyddyn.
Hyfforddiant i staff	Ydi staff yn ymwybodol fod nhw'n gallu gofyn am rhai hyfforddiant staff yn Gymraeg? 1. recriwtio a chyfweld; 2. rheoli perfformiad; 3. gweithdrefnau cwyno a disgyblu; ymsefydlu; 4. delio â'r cyhoedd; 5. di mynychu hyfforddiant iechyd a diogelwch.	135	Adnoddau Dynol	Llawer o hyfforddiant mewnol ar gael yn Gymraeg neu'n ddwyieithog.
	Beth yw'r broses o gofnodi pa iaith mae staff eisiau hyfforddiant?		Adnoddau Dynol	Dewis iaith staff ar MyView. Mae staff yn gweld cyfrwng iaith cyrsiau ar STEPS ac felly'n gallu dewis mynychu'r sesiwn Gymraeg os dymunant.

	Ydi system STEPS yn nodi'n glir pa iaith fydd yr hyfforddiant yn cael ei gynnal a bod posib cael yr hyfforddiant yn Gymraeg?		Adnoddau Dynol	Llawer o hyfforddiant mewnol ar gael yn Gymraeg neu'n ddwyieithog. Datblygiad Pellach: Angen addasu STEPS i gynnwys gwybodaeth am iaith cyflwyno sesiynau hyfforddiant fel bod pobl yn gwybod ym mha iaith bydd y sesiwn yn cael ei gynnal. (CP / MR) - Wedi ei gyflawni
	Ydi Rheolwr Maes Rhaglen yn cofnodi bob hyfforddiant ar STEPS fel bod modd monitro cyfrwng iaith yr hyfforddiant sy'n cael ei gynnal i staff?		Rheolwr Maes Rhaglen	Ffurflen cyflwyno hyfforddiant ar STEPS wedi ei addasu
	Sut mae staff yn derbyn cefnogaeth i wella'u sgiliau iaith Gymraeg?	138, 139	Dwyieithrwydd	Hyfforddiant / gwersi ar gael trwy Siân Pritchard ein tiwtor iaith Gymraeg proffesiynol. Mae staff ar restr aros gan nad ydynt yn gallu mynychu gwersi sy'n cael eu cynnal ar hyn o bryd.
Penodi staff newydd	Oes gan y Rheolwr Maes Rhaglen gynllun ar gyfer sgiliau iaith Gymraeg o fewn ei adran (cynllunio ymlaen ar gyfer hysbysebu rhai swyddi efo'r Gymraeg yn hanfodol, gofyn bod rhai aelodau o staff yn mynychu cyrsiau Cymraeg fel rhan ffurfiol o'r broses gwerthuso staff, ac ati).	145	Rheolwr Maes Rhaglen	Mae'r Cod Ymddygiad ar gyfer Recriwtio yn y broses o gael ei fabwysiadu. Mae'r cod yn amlinellu disgwyliad bod o leiaf 30% o gapasiti staff o fewn unrhyw adran i ddarparu gwasanaeth Cymraeg. Bydd hyn yn dod yn rhan o unrhyw gynlluniau ar gyfer y gweithlu gan gynnwys recriwtio staff newydd ond hefyd wrth ystyried datblygu sgiliau iaith Gymraeg y staff hynny sy'n gweithio i'r Grŵp yn barod. Datblygiad Pellach: mae gennym gynllun datblygu capasiti ar gyfer meysydd lle rydym yn targedu hyfforddiant gyda staff er mwyn cynyddu ein gallu i ddarparu cyrsiau yn Gymraeg.
	Oes asesiad o anghenion ieithyddol ar gyfer unrhyw swyddi newydd (neu benodi yn lle rhywun sydd wedi gadael) addas a phwrpasol wedi digwydd (os ydi'r maes rhaglen wedi hysbysebu am swyddi)?	145	Rheolwr Maes Rhaglen	Mae'r drefn yn cael ei adolygu ar hyn o bryd. Datblygiad Pellach: Diweddaru panel iaith ar y cynnydd. JC

2.3. Penderfyniadau Polisi

Maes	Cwestiynau posib Gweithgareddau cwsmer cudd	Rhif Safon	Yn berthnasol i	Diweddariad (Rhagfyr 2019)
Llunio polisi neu addasu polisi sydd eisoes yn bodoli	Oes asesiad effaith y Gymraeg wedi ei gyflawni ar bob penderfyniad polisi (ysgrifennu polisi newydd neu addasu polisi sydd eisoes yn bodoli)?	94-96	Grŵp Tîm Rheoli / Panel Iaith	<p>Mae pob asesiad effaith ar y Gymraeg sy'n ymwneud â pholisïau newydd neu addasu polisi sydd eisoes yn bodoli'n barod yn cael ei graffu arno yn y Panel Iaith. Yn ystod 2018-19, craffwyd ar asesiadau effaith y polisïau/ gweithdrefnau canlynol:</p> <p>Polisi Chwythu'r Chwiban / Cod Ymddygiad (adolygiad) Gweithdrefnau ar gyfer Cydraddoldeb Trans (gweithdrefn newydd) Polisi CCTV (adolygiad) Polisi lechyd a Diogelwch (adolygiad) Polisi Diogelu Cyflog (adolygiad) Polisi Ffioedd Dysgu (adolygiad) Cod ymddygiad staff (adolygiad) Polisi Ffitrwydd i Astudio (newydd) - ddim yn weithredol Polisi lechyd a Diogelwch (adolygiad) Polisi cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith (adolygiad)</p>
	Oes asesiad effaith yn cael ei gynnal ar unrhyw newidiadau yn y cwricwlwm?	104	Cyfarwyddwr Cwricwlwm ac Ansawdd / Rheolwyr Maes Rhaglen	<p>Mae'r Grŵp Cwricwlwm Strategol yn ystyried unrhyw newidiadau i gyrsiau neu gyflwyno cyrsiau newydd. Fel rhan o'r broses honno mae gofyn ystyried yr effaith ar y Gymraeg.</p> <p>Datblygiad Pellach: Grŵp Cwricwlwm Strategol i weithio efo'r byrddau dyfarnu lle mae newid yn y cwricwlwm ar draws Cymru yn golygu bod lleihad mewn asesiadau cyfrwng Cymraeg (e.e. profion allanol) (byrddau dyfarnu, Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Cymwysterau Cymru)</p>

2.4. Sgiliau Cymraeg Cyflogeion

Mae'r tabl isod yn amlinellu'r wybodaeth sydd gan y Grŵp ynglŷn â sgiliau iaith Gymraeg ei staff:

	Math o sgiliau	Nifer staff	Rhugl		Canolradd		Sylfaenol		Dim Cymraeg		Dim gwybodaeth	
Coleg Llandrillo												
1.1	Deall	453	55	12%	34	7%	141	31%	88	19%	135	30%
1.2	Siarad		52	12%	25	5%	133	29%	106	23%	137	30%
1.3	Ysgrifennu		42	9%	26	6%	114	25%	135	30%	136	30%
Coleg Menai a Choleg Meirion Dwyfor												
2.1	Deall	473	218	46%	25	5%	39	8%	16	3%	175	37%
2.2	Siarad		214	45%	24	5%	41	9%	18	4%	176	37%
2.3	Ysgrifennu		185	39%	35	7%	53	11%	24	5%	176	37%
Gwasanaethau Academaidd												
3.1	Deall	250	110	44%	16	6%	49	20%	27	11%	48	19%
3.2	Siarad		107	43%	11	4%	49	20%	33	13%	50	20%
3.3	Ysgrifennu		99	40%	12	5%	46	18%	43	17%	50	20%
Gwasanaethau Corfforaethol												
4.1	Deall	219	56	26%	16	7%	52	24%	43	20%	52	20%
4.2	Siarad		54	25%	13	6%	47	21%	51	23%	54	23%
4.3	Ysgrifennu		51	23%	10	5%	46	21%	59	27%	53	24%
Busnes@												
5.1	Deall	196	89	45%	20	10%	36	18%	27	14%	24	12%
5.2	Siarad		87	44%	15	8%	41	21%	29	15%	24	12%
5.3	Ysgrifennu		75	38%	18	9%	37	19%	41	21%	25	13%
Grŵp Llandrillo Menai												
6.1	Deall	1591	528	33%	111	7%	317	20%	201	13%	434	27%
6.2	Siarad		514	32%	88	6%	311	20%	237	15%	441	28%
6.3	Ysgrifennu		452	28%	101	6%	296	19%	302	19%	440	28%

2.5. Recriwtio i Swyddi Gwag a Newydd

Hysbysebwyd 222 o swyddi ar draws Grŵp Llandrillo Menai rhwng 1 Awst 2018 a 31 Gorffennaf 2019. Mae'r tabl isod yn dangos os oedd sgiliau Gymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol ar gyfer y swyddi hynny ac ym mha ran o'r Grŵp y cafodd y swyddi eu hysbysebu.

	Nifer y swyddi wedi eu hysbysebu	Nifer a chanran y swyddi 'Cymraeg yn ddymunol'		Nifer a chanran y swyddi 'Cymraeg yn hanfodol'		Canran yr unigolion rhugl yn y Gymraeg wedi eu penodi (Ile gwnaed penodiad)
Gwasanaethau Academaidd	22	7	32%	15	68%	86%
Gwasanaethau Corfforaethol	29	26	90%	3	10%	30%
Busnes@	28	16	57%	12	43%	65%
Coleg Llandrillo	77	77	100%	0	0%	24%
Coleg Menai a Meirion Dwyfor	67	24	36%	43	64%	85%
Grŵp Llandrillo Menai	222	132	59%	70	32%	52%

At yr uchod cafodd 11 o staff â sgiliau iaith Gymraeg canolradd a 46 o staff â sgiliau iaith Gymraeg sylfaenol eu penodi. Dim ond 8% o'r penodiadau roedd i staff â dim sgiliau iaith Gymraeg o gwbl.

Gweler isod sut hysbysebwyd gwahanol fathau o gytundebau ar draws y Grŵp yn ystod cyfnod yr adroddiad.

	Nifer y swyddi wedi eu hysbysebu	Nifer y swyddi 'Cymraeg yn ddymunol'		Nifer y swyddi 'Cymraeg yn hanfodol'	
Llawn amser, parhaol	68	36	53%	32	47%
Rhan amser, parhaol	27	16	59%	11	41%
Cyfnod mamolaeth	12	8	67%	4	33%
Llawn amser, cyfnod penodol	29	13	45%	16	55%
Rhan amser, tâl yr awr neu gyfnod penodol	89	62	70%	27	30%

Mae'r data uchod yn dangos bod oddeutu 45% o swyddi parhaol (llawn amser a rhan amser) wedi cael eu hysbysebu gyda'r Gymraeg yn hanfodol. Mae'r ganran yn is ar gyfer swyddi tâl yr awr neu swyddi am gyfnod penodol.

2.6. Hyfforddiant Cymraeg i gyflogeion

Mae'r Grŵp yn darparu gwasanaeth canolog ar gyfer cynnal hyfforddiant mewnol i'w staff yn flynyddol. At hynny, mae adrannau yn gweithredu trefniadau unigol ar gyfer cefnogi staff i fynychu hyfforddiant (neu wrth drefnu hyfforddwyr allanol i ymweld â'u timau). Mae'r data isod yn cyflwyno data ar gyfer sesiynau hyfforddiant yn y meysydd sy'n cael eu hamlinellu o dan Safon 135 ac sydd wedi ei gasglu'n ganolog drwy'r adran datblygu staff.

Maes Hyfforddiant	Nifer y digwyddiadau	Nifer wedi mynychu sesiynau dwyieithog	Canran o gyfanswm y staff a fynychodd y cwrs a fynychodd y fersiwn ddwyieithog
Recriwtio a chyfweld	0	-	-
Rheoli perfformiad	0	-	-
Gweithdrefnau cwyno a disgyblu	0	-	-
Delio â'r cyhoedd	0	-	-
Cynefino staff	15	155	100%
Iechyd a diogelwch	98	643	51%

2.7. Hyfforddiant ieithyddol ac ymwybyddiaeth iaith i gyflogeion

Maes Hyfforddiant	Nifer y staff wedi mynychu
Cymraeg Gwaith	18
Safonau iaith Gymraeg	42
Hyfforddiant Seren iaith	19
Sesiwn blasu i ddechreuwyr pur	14
Ymwybyddiaeth iaith	26

2.8. Cwynion

Ni dderbyniodd y Grŵp unrhyw gwynion a oedd yn ymwneud â'n cydymffurfedd â'r safonau iaith Gymraeg yn ystod y flwyddyn 2018-19.